| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 22 Chwefror 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | • Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24<br>• Cadarnhau trefniadau i adnabod eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2024 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023.

2. Yng nghyfarfod y Pwyllgor, rhaglenwyd yr eitem 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus' ar gyfer cyfarfod 18 Ebrill 2024. Cynhelir y cyfarfod yn ystod cyfnod cyn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sydd i'w gynnal ar 2 Mai 2024. Mae'n angenrheidiol rhoi ystyriaeth i'r hyn y bwriedir ei graffu yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

3. O ystyried natur y drafodaeth yng nghyswllt cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, mae'r Swyddog Monitro wedi rhoi arweiniad na ddylid craffu'r mater yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

4. Er mwyn sicrhau bod craffu yn digwydd cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad, mae dyddiad amserol wedi ei adnabod yn y calendr drafft ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn y flwyddyn cyngor 2024/25. Rhagwelir y cynhelir y cyfarfod ar 16 Mai 2024 ond mae hyn yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor Llawn yng nghyfarfod 7 Mawrth 2024, pan fydd y Cyngor yn ystyried y calendr pwyllgorau.

5. Yn sgil hyn, yn dilyn ymgynghori gyda'r Cadeirydd ail-raglenwyd yr eitem 'Llawlyfr Cynnal Priffyrdd' o'r cyfarfod yma i gyfarfod 18 Ebrill 2024. Gwnaed hyn ar y sail y byddai modd rhoi sylw teg i'r eitemau gyda thair eitem fesul cyfarfod.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.

7. Gan ystyried y cynhelir cyfarfod olaf y Pwyllgor yn y flwyddyn cyngor presennol ar 18 Ebrill 2024 a dyddiad drafft wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal y cyfarfod dilynol ar 16 Mai 2024. Er mwyn rhoi amser digonol i'r Adrannau baratoi adroddiadau, gwneir cais i'r Pwyllgor gytuno bod y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn eu cyfarfodydd cyswllt gyda'r Penaethiaid ac Aelodau Cabinet perthnasol yn adnabod eitemau i'w trafod ynghyd â'r eitem 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus' yng nghyfarfod mis Mai.

8. Cyflwynir adroddiad gerbron y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024, er mwyn cadarnhau'r eitemau i'w craffu yng nghyfarfod mis Mai.

9. Bydd cyfle i aelodau'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau i'w craffu ar gyfer y pedwar cyfarfod arall yn 2024/25 yn y Gweithdy Blynyddol.

10. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau:**
    **(i) fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24;**
    **(ii) gadarnhau trefniadau i adnabod eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2024.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24

**13/07/2023**

- Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
- Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus

**05/10/2023**

- Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni
- Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan
- Toiledau Cyhoeddus

**30/11/2023**

- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Strategaeth Llifogydd Lleol

**22/02/2024**

- Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Strategaeth Llifogydd Lleol
- Torri Gwair a Chynnal Tiroedd

**18/04/2024**

- Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
- Llawlyfr Cynnal Priffyrdd
- Gwasanaeth Edrychiad Stryd

<u>Eitemau i'w rhaglennu yn 2024/25:</u>

Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus

Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd